



Llygoden bengron y dŵr

Canllawiau ar gyfer creu coetiroedd lle mae llygod y dŵr yn bresennol Medi 2015

1. Cyflwyniad

Mae llygod y dŵr wedi dioddef dirywiad sylweddol o ran niferoedd a dosbarthiad. Mae arolygon cenedlaethol wedi dangos bod llygoden y dŵr wedi diflannu o dros 90% o'i gwmpas daearyddol yn y DU, yn bennaf o ganlyniad i golli, diraddio, a darnio cynefinoedd addas, a bod yn ysglyfaeth i fincod Americanaidd, ond hefyd o ganlyniad i lygredd, gwenwyno a llifogydd.

Mae gwybodaeth am ddosbarthiad llygod y dŵr yng Nghymru yn dal i fod yn brin, oherwydd nid yw'r holl fannau wedi eu harolygu, ac nid yw gwybodaeth arolygon yn cael ei diweddarau'n rheolaidd. Mae poblogaethau da ar Ynys Môn ac ar dir mawr gogledd Cymru a Cheredigion, ar iseldiroedd ac ucheldiroedd. Mae'r poblogaethau yn ne Cymru a dwyrain Cymru'n fwy gwasgaredig. Cafodd llygod y dŵr eu hailgyflwyno mewn rhai mannau yn ddiweddar, e.e. Llyn Syfaddan, Cors Magwyr a Gwastadeddau Gwent.

Mae llygoden y dŵr yn rhywogaeth a warchodir o dan Atodlen 5, Deddf Bywyd Gwylt a



Cynefin llygod y dŵr. Llun - Jean Matthews

Chefn Gwlad, 1981 (fel y'i diwygiwyd). Yn fras, mae hyn yn ei wneud yn anghyfreithlon i ladd, anafu, dal, neu aflonyddu ar llygod y dŵr, ac i niweidio, dinistrio, neu rwystro mynediad at fan gorffwys llygoden y dŵr. Byddai plannu mewn cynefin a ddefnyddir gan llygod y dŵr yn difrodi eu tyllau ac yn aflonyddu ar y llygod, a dylid osgoi hyn. Mae llygoden y dŵr yn un o nodweddion rhai SoDdGA, ac mae rhai safleoedd mwy o faint yn Safleoedd Allweddol Cenedlaethol ar gyfer llygod y dŵr, er nad yw hyn yn ddynodiad statudol.

2. Bioleg ac Ecoleg

Llygoden y dŵr yw'r llygoden bengron fwyaf ym Mhrydain, a hyd corff oedolyn ar gyfartaledd yw 190mm. Mae ganddo ymddangosiad crwn, clustiau bach, a thrwyn nad yw'n bigog, ac mae'r cynffon blewog ychydig yn llai na hanner hyd y corff. Mae'r gôt yn drwchus, yn flewog ac yn aml yn lliw brown castan cryf.

Mae llygod y dŵr yn gnofilod tyrchol lled-ddyfrol, ac maent yn llysysorion yn bennaf. Maent yn bwyta cyrs, glaswelltau, brwyn, hesg ac amrywiaeth eang o blanhigion gwlyptir a phlanhigion dyfrol. Maent yn tyllu systemau helaeth o dyllau o dan y ddaear, ac maent yn creu siambrau nythu ynddynt ac yn storio bwyd. Gall tyllau estyn dros sawl metr, a gall mynedfeydd y tyllau fod hyd at bedwar metr i ffwrdd o ymyl y dŵr.

Maent yn byw mewn llwythau, sydd yn aml yn ymestyn ar hyd cwrs dŵr llinellol, neu wedi eu crynhoi mewn cynefinoedd da, megis corslwyni neu gorsydd mewn ucheldiroedd. Mae llygod y dŵr yn bridio rhwng mis Mawrth a mis Hydref, ac maent yn gallu cynhyrchu 2 - 5 o doreidiau bob blwyddyn.

Yn aml ni welir llygod y dŵr yn y maes. Os aflonyddir arnynt pan maent allan o'r dŵr, maent yn neidio yn ôl i mewn gyda'r sŵn "plop!" sy'n nodweddiadol ohonynt. Gellir gwybod bod llygod y dŵr yn bresennol drwy edrych i weld a oes olion, megis carthfeydd, mynedfeydd tyllau (ac weithiau mae ôl pori) neu weddillion bwyd, er, gellir cymysgu'r rhain ag olion llygod y gwair neu lygod mawr.



Twll llygoden y dŵr a charthfa.

Llun - Jean Matthews

3. Math o gynefin

Mae llygod y dŵr yn byw mewn cyrsiau dŵr neu gyrff dŵr megis ffosydd draenio, pyllau dŵr, llynnoedd a gwlyptiroedd, yn ddelfrydol gyda dŵr sy'n llifo'n araf neu sy'n llonydd, a swbstrad glan afon sy'n feddal ar gyfer tyllu. Mae gan safleoedd delfrydol lefelau dŵr sefydlog â dyfnder o 0.3m o leiaf drwy'r flwyddyn er mwyn cadw mynedfeydd y tyllau a'r cuddfannau o dan y dŵr, ac yn ddiogel rhag ysglyfaethwyr, a chyda glannau sy'n ddigon uchel fel bod rhai systemau o dyllau'n aros yn sych mewn cyfnodau pan geir llifogydd.

Mewn ucheldiroedd, efallai y bydd llygod y dŵr hefyd yn defnyddio glaswelltir gwlyb â llystyfiant twmpathog ar gyfer nythod uwchben y ddaear.

Mae llygod y dŵr yn ffafrio safleoedd â llystyfiant toriethog a dwys ar lannau, yn enwedig glaswelltau, planhigion llysiuol, brwyn, hesg a mwsogl. Gall coed a llwyni fod yn ffynhonnell bwysig o fwyd, e.e. yn y gaeaf maent yn bwyta gwreiddiau a rhisgl helyg, ac efallai blagur helyg yn y gwanwyn. Fodd bynnag, dylid osgoi mannau lle mae gorchudd coed dwys yn rhy agos at y dŵr, am ei fod yn gallu cysgodi planhigion eraill ac yn rhoi gorchudd i ysglyfaethwyr.

Gall y mathau canlynol o gynefinoedd fod yn bwysig i lygod y dŵr (a bioamrywiaeth arall), a dylid osgoi plannu coed yn y lleoedd hyn:-

- Glaswelltir gwlyb ac agored, yn enwedig glaswellt y bwla twmpathog (*Molinia caerulea*) a chanwyllfrwynen (*Juncus effusus*)
- Rhostir gwlyb â phyllau agored, ffosydd draenio, neu nentydd
- Corsydd a llaid, yn enwedig rhai â digonedd o dwmpathau mwsogl
- Corsydd, ffeniau neu wern a gysylltir yn aml ag ymylon llynnoedd neu byllau dŵr
- Safleoedd coetir gwlyb, yn enwedig carrau helyg a gwern

4. Dylai cynlluniau creu coetir mewn ardaloedd a nodir fel ardaloedd pwysig ar gyfer llygod y dŵr gynnwys y mesurau canlynol:

- Dylid nodi nodweddion dŵr mewn ardaloedd gwastad neu ardaloedd sydd ar lethr raddol; mae topograffeg addas yn cynnwys gorlifdiroedd, gwaelod dyffrynnoedd, llwyfandiroedd pen bryn, a basnau rhwng bryniau. Dylid dod o hyd i gynefin addas o fewn y safle; Bydd gan gynefin da llystyfiant dwys ar y glannau, fel y disgrifir uchod.
- Dylid osgoi creu gorchudd prysgwydd a choed ar unrhyw lannau afonydd sy'n addas ar gyfer tyllu. Dylid gadael o leiaf pum metr o lain glustogi heb unrhyw beth wedi'i blannu ar y ddwy lan.
- Dylid osgoi plannu ar dir uwch sy'n agos at y dŵr, a allai fod yn cael ei ddefnyddio gan lygod y dŵr fel lloches yn ystod llifogydd (e.e. gyda swbstrad meddal ar gyfer tyllu).
- Dylid dylunio'r cynllun plannu er mwyn osgoi rhannu coridorau glannau afon sy'n cysylltu ardaloedd coryydd, mignenni, pyllau, ffosydd, draeniau a nentydd.
- Dylid anelu at gynnal llystyfiant gwelltog ar y glannau, gydag ond ychydig o orchudd gan goed llydanddail, neu dim gorchudd o gwbl, yn agos at gynefin llygod y dŵr. Wrth dyfu coed, dylid sicrhau nad ydynt yn cysgodi'r cwrs dŵr. Gellir gwneud hyn drwy blannu (dewis rhywogaeth a lleoliad) a thrwy wneud gwaith rheoli yn y dyfodol (e.e. bondoncio), hefyd drwy adael llain gysgodi fwy ar ochr ddeheuol y cwrs dŵr. Dylid ystyried plannu dwysedd is ar ymyl y llain gysgodi, e.e. coed â bwlch o dri metr wrth yr ymyl sydd agosach at y cwrs dŵr. Dylid creu ymyl coetir golpiog agored ar hyd ymylon cynnes nentydd, draeniau a mannau gwlyb, sef yr ymylon sy'n wynebu'r de, er mwyn gwneud y cynefin mor addas â phosibl ac i dyfu cymaint o llystyfiant toriethog â phosibl.
- Dylid cadw ardaloedd agored (heb orchudd i ysglyfaethwyr e.e. ardaloedd eang o llwyni) yn agos at lwythau llygod y dŵr sy'n hysbys. Mae coed neu llwyni arunig yn ffynhonnell bwysig o fwyd, ond efallai y bydd angen gwaith cynnal a chadw i'w hatal rhag mynd yn rhy dal neu'n rhy ddwys.
- Dylid cynnwys rhywogaethau coed a llwyni sy'n ffafriol i lygod y dŵr wrth ymyl y cynllun plannu sydd agosach at y cwrs dŵr. Mae'r rhain yn cynnwys rhywogaethau helyg *Salix*, aethnenni *Populus tremula*, aethnenni du *P. nigra*, y wern gyffredin *Alnus glutinosa*, cyll

Corylus avellana, masarn bach *Acer campestre*, coed criafol *Sorbus aucuparia*, drain gwynion *Crataegus monogyna*, coed afalau surion *Malus sylvestre*, coed ceirios yr adar *Prunus padus*, ysgaw *Sambucus nigra*.

Deunydd darllen pellach

Mae Strachan et al (2011), *The Water Vole Conservation Handbook* 3^{ydd} Argraffiad, Wildcru, Rhydychen, yn rhoi rhagor o wybodaeth ynglŷn ag adnabod rhywogaethau, rheoli cynefinoedd ac ati.

Jean Matthews, *Ecolegydd Ystlumod a Mamaliaid Glannau Afon*, Dadansoddiad o Dystiolaeth, Cyfoeth Naturiol Cymru